TAYLOR, HENRY (1845 - 1927), hanesydd a hynafiaethydd

Enw: Henry Taylor
Dyddiad geni: 1845
Dyddiad marw: 1927
Priod: Taylor (née Venables)
Rhiant: Henry Taylor
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hanesydd a hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd yn Wigan, mab Henry Taylor, perchennog glofa. Daeth yn gyfreithiwr yn 1864 ac, o 1873, yn brif bartner ffyrm Boydell a Taylor, cyfreithwyr, Caer; o 1874 hyd 1906 ef oedd clerc corfforaeth tre'r Fflint. Priododd - Venables, Whitchurch, Sir Amwythig, a ganwyd pedair merch o'r briodas.

Cofir am Taylor yng Nghymru, yn bennaf, fel awdur *Historic Notices ... of the Borough and County-Town of Flint*, 1883. Yr oedd, yn ei gyfnod, yn un o'r rhai mwyaf hyddysg yn hanes a hynafiaethau gogledd-ddwyrain Cymru a sir Gaerlleon. Cyfrifir ef yn bennaf sylfaenydd y Flintshire Historical Society ac ysgrifennai i gylchgrawn y gymdeithas honno a chylchgronau cymdeithasau cyffelyb yn sir Gaerlleon, etc. Cynullodd lu o ddefnyddiau - llyfrau, llawysgrifau, a chof ysgrifau, a darluniau - ynglŷn â Sir y Fflint, a throsglwyddodd y casgliad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru - yr oedd yn aelod o lys a chyngor y Llyfrgell - i ffurfio cnewyllyn yr hyn a elwir yn 'Flintshire Historical Collection.' Y mae adran llawysgrifau a chofysgrifau Taylor yn y casgliad arbennig hwn yn ymestyn o NLW MSS 6267-6331 , ac yn dangos mor eang oedd cylch ei ddiddordebau; cadwodd Taylor, er enghraifft, lu mawr o'r llythyrau a dderbyniodd oddi wrth haneswyr a hynafiaethwyr yng Nghymru, Lloegr, etc. Yr oedd yn F.S.A. a chafodd radd M.A. 'er anrhydedd' gan Brifysgol Manceinion. Bu farw 3 Ionawr 1927.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales, ii, 164-9

marw-goffa yn *The Flintshire Observer*, 6 Ionawr 1927 a'r *The Cheshire Observer*, 8 Ionawr 1927

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: NLW MSS 6267-6331: Henry Taylor Manuscripts

Wikidata: Q20733160

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Davies, W. Ll., (1953). TAYLOR, HENRY (1845 - 1927), hanesydd a hynafiaethydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-TAYL-HEN-1845

Copïo i'r Clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government